

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 10fed Mai, 2016 at  
5.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor B. Strong (Chairman)  
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, J. Prosser, M. Powell, V. Smith, G. Burrows, P. Clarke, J. Crook, D. Dovey, A. Easson, D. Edwards, D. Evans, P. Farley, P.A. Fox, J. George, R.J.W. Greenland, L. Guppy, E. Hackett Pain, R. Harris, M. Hickman, J. Higginson, P.A.D. Hobson, G. Howard, D. Jones, P. Jones, S. Jones, S.B. Jones, P. Jordan, P. Murphy, F. Taylor, A. Watts, P. Watts, A. Webb, S. White, K. Williams and A. Wintle

## **OFFICERS IN ATTENDANCE:**

Paul Matthews	Chief Executive
Kellie Beirne	Chief Officer, Enterprise
Peter Davies	Chief Officer, Resources
Will Mclean	Head of Democracy, Engagement and Improvement
Joy Robson	Head of Finance/Section 151 Officer
Robert Tranter	Head of Legal Services & Monitoring Officer
Nicola Perry	Senior Democracy Officer

## **APOLOGIES:**

Councillors R. Chapman, G. Down, R. Edwards, S. Howarth and J. Marshall

### **2. Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

### **3. Ethol Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2016/17**

Cyfarchodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Sir B. Strong, y Cyngor a diolchodd i bawb a'i cefnogodd yn ystod ei flwyddyn yn y swydd, yn enwedig Mrs Mary Strong, ei gydweddi, a'r Parchedig Paul Baxter, ei Gaplan. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr anrhydedd fawr o allu cynrychioli Sir Fynwy fel Cadeirydd a thynnodd sylw at rai eiliadau eithriadol, sy'n cynnwys y cyfle i siarad â phobl ifanc a gymerodd ran yn y digwyddiad elusennol Walking with Wounded, gwasanaethau Diwrnod y Cofio, agor Ysgol Gynradd newydd Rhaglan a'r cyfle i fynychu cyngherddau cerddorol Gwent. Anogodd y Cadeirydd yr holl Aelodau, os yw'n bosibl, i gefnogi Cerddoriaeth Gwent. Codwyd mwy na £12,000 at elusennau'r Cadeirydd, Ambiwlans Awyr Cymru ac Elusen Ysbytai Plant Arch Noah.

Cyfarchodd a diolchodd Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Sir P.A Fox i'r Cadeirydd a'i gydweddi am eu gwaith fel llysgenhadon o'r radd flaenaf i'r Cyngor. Roedd pawb yn gytûn bod parch mawr i'r Cadeirydd, ei bod yn rhwydd gweithio gydag ef a'i fod yn gallu dangos y rhinweddau sydd eu hangen mewn arweinyddiaeth. Cydnabuwyd bod y Cadeirydd wedi parhau â'i bwyllgorau drwy gydol ei flwyddyn fel Cadeirydd. Canmolodd Arweinydd y Cyngor y gwaith

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 10fed Mai, 2016 at 5.00 pm

clodwiw wnaeth y Cadeirydd yn codi arian i'w elusennau., gan nodi mai hwn oedd y swm mwyaf a godwyd erioed gan Gadeirydd y Cyngor hwn ers y cychwyn.

Adleisiodd Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol, y Cyngorwyr Sir D. Batrouni a P.A.D. Hobson, ac ar ran y Grŵp Annibynnol, y Cyngorydd Sir F. Taylor, sylwadau'r Arweinydd, gan ddiolch i'r Cadeirydd a'i deulu am eu gwaith aruthrol fel llysgenhadon.

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Sir D. Batrouni, a'i eilio gan y Cyngorydd Sir P. Fox, a phenderfynwyd ethol y Cyngorydd Sir J. Higginson fel Cadeirydd y Cyngor Sir am y Flwyddyn Ddinesig 2016/17.

Gwnaeth a llofnododd y Cyngorydd Sir Higginson y Datganiad o Dderbyn Swydd, arwisgwyd ef â Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd ymadawol, a chymerodd y Gadair.

Diolchodd y Cadeirydd newydd-etholedig i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chyhoeddodd mai Mrs. Pauline Collier fyddai ei gydweddi; y Parchedig Dennis Richards ei Gaplan; a'i elusennau fyddai Tŷ Hafan a Sefydliad Dewi Sant.

Yna cyflwynodd y Cadeirydd Fathodyn Swydd y Cyn-gadeiryddion i'r Cadeirydd ymadawol.

#### **4. Penodi Is - gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2016/17**

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Sir R.J.W. Greenland ac eiliwyd gan y Cyngorydd Sir E.J. Hackett Pain, fod y Cyngorydd Sir P. Jordan yn cael ei benodi fel Is-gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2016/17.

Penderfynasom fod y Cyngorydd Sir P. Jordan yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2016/17.

Gwnaeth a llofnododd y Cyngorydd Jordan y Datganiad o Dderbyn Swydd, arwisgwyd ef â Chadwyn y Swydd gan y Cadeirydd, a chymerodd ei le fel Is-gadeirydd.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chyflwynodd Mrs. Katherine Jordan fel Cydweddi'r Is-gadeirydd.

Terfynodd y rhaglen gyda chyflwyno Cadwyn Swydd i Gydweddi'r Cadeirydd newydd, Mrs. Pauline Collier; tlws crog i Gydweddi'r Cadeirydd ymadawol, Mrs. Mary Strong; a Chadwyn Swydd i Gydweddi'r Is-gadeirydd, Mrs. Katherine Jordan.

#### **5. Bydd yr eitemau canlynol tan y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhelir ar 12 Mai 2015 :**

Penderfynasom ohirio'r eitemau busnes oedd yn weddill tan gyfarfod nesaf y Cyngor i'w gynnal ar ddydd Iau, 12<sup>fed</sup> Mai 2016.

**The meeting ended at 5.45 pm**